

### **Cyngor Tref Amlwch Town Council**

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Rhagfyr 15 2015 yn Siambr y Cyngor am 6.30 o'r gloch.  
*Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday December 15<sup>th</sup>, 2015 at 6.30pm.*

**Presennol/Present:** Gareth W Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), T Gwynn Jones, Myrddin Owens, Meg Roberts, Val Roberts

**Cynghorwyr Sirol/County Councillors:** Neb/None

**Yn bresennol/In attendance:** Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk)

**Ymddiheuriadau/Apologies:** Miriam Sanders, Gordon Warren, Helen Hughes, Mike Roberts, Nige Ault, Wayne Jones, Gareth Owen, Cyng/Cllr Wil Hughes, Cyng/Cllr Aled M Jones, Cyng/Cllr Richard Jones

#### **1 Croeso/Welcome**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.  
*The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE and all present were welcomed.*

#### **2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Gwynn Jones, eilio Meg Roberts.  
*The minutes were confirmed a true record. Proposed by Gwynn Jones, seconded by Meg Roberts.*

#### **3 Materion yn codi/Matters arising**

3.1 4.2 Banc Bwyd – nid oes diweddariad hyd yma.  
*4.2 Food Bank – no update as yet.*

3.2 4.5 Goleuadau Porth Amlwch – diolchwyd i Cyng Aled Jones a Cyng Wil Hughes am drefnu cyfarfod gyda'r swyddogion sirol. Cafwyd trafodaeth bositif ac fe fydd cadarnhau'r manylion maes o law.

*4.5 Amlwch Port Lights – Cllr Aled Jones and Cllr Wil Hughes were thanked for arranging a meeting with the County Council officers. Following a positive discussion, it will be possible to confirm the details in due course.*

3.3 4.6 Swyddfa Bost – deallwyd bod y Swyddfa Bost mewn trafodaethau gyda cwmni yn y dref. Fel dywedwyd eisioes, bydd y Cyngor yn cefnogi unrhyw gwmni er mwyn diogelu'r gwasanaeth yn y dref. Dywed y Cadeirydd nad oedd Cyng Richard Jones wedi bod mewn cysylltiad a'r Cyngor ers y cyfarfod diwethaf ynglyn a'i ddatganiad yn ymwneud a chais y Cyngor. Cafwyd wybod nad oedd y pecyn ariannol gan y Cyngor a Hyfforddiant Parys yn sefyll mwyach. Roedd yr aelodau yn gytun bod y Cyngor Tref wedi gwneud hynnu oedd yn bosib er mwyn ceisio diogelu'r gwasanaeth. Cytuno ysgrifennu at Cyng Richard Jones gyda diweddariad o safbwynt y Cyngor gan nad oedd o wedi cysylltu a'r Cyngor.

*4.6 Post Office – it was understood that the Post Office are in discussions with a business in the*

*town. As previously stated the Town Council will support any business in order to safeguard the service. It was noted that the joint financial package between the Council and Hyfforddiant Parys Training has been withdrawn however both organisations will continue to support and safeguard the service in town. The Chair informed the Council that Cllr Richard Jones has not been in contact since the last meeting regarding the statement made by the councillor regarding the Council's bid. The members were agreed that the Town Council had done what it could to safeguard the post office service in the town. Agreed to write to Cllr Richard Jones with an update of the current situation as he had not been in contact with the Council.*

- 3.4 8.2 Pwyllgor Safonau – nodwyd mai John Chorlton a John Roberts oedd wedi eu ethol ar y Pwyllgor.

*8.2 Standards Committee – it was noted that John Chorlton and John Roberts had been elected onto the committee*

#### **4 Pwyllgorau allannol/External meetings**

Dim pwyllgorau allannol / No external meetings.

#### **5 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report**

Cafwyd crynodeb gan Myrddin Owens o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Rhagfyr 7ed. Nodwyd bod y taliadau hyd yn hyn wedi eu cymeradwyo, a bod peth incwm wedi ei dderbyn drwy daliadau rhent am ddefnydd gwahanol adeiladau.

Dosbarthwyd gopi o argymhellion y Pwyllgor Cyllid o gyllideb y Cyngor ar gyfer 2016/17 ac fe gafwyd esboniad o'r prif wahaniaethau, yn bennaf bod peth gwariant wedi ei symud o un penawd i'r llall a rhai penawdau wedi eu uno. Cytuno derbyn argymhellion y Pwyllgor Cyllid a chodi'r dreth £2.34 y flwyddyn (i eiddo band D) yn unol a'r gyllideb.

*Myrddin Owens gave a summary of the Finance Committee meeting held on December 7<sup>th</sup>. It was noted that all payments to date had been approved and that income by means of rent payment for the use of various buildings.*

*A copy of the proposed budget for 2016/17 was distributed to those present, and an explanation given for the main variances – mainly due to expenditure being moved under different headings and heading being amalgamated. Agreed to adopt the Finance Committee's recommendations and increase the rates by £2.34 per annum for a band D property in line with the budget.*

#### **6 Cynllunio/Planning**

##### 6.1 Penderfyniadau/Decisions

Ni chafwyd penderfyniadau gan y Cyngor Sir / Not informed of any County Council decisions.

##### 6.2 Ceisiadau/Applications

Roedd un cais i'w drafod; roedd Val Roberts yn datgan diddordeb ac fe adweodd yr ystafell.  
*There was one application to discuss; Val Roberts declared an interest and left the room.*

Vemar, Rutland Road, Bull Bay (11C43D/VAR) – dim gwrthwynebiad/no objection

#### **7 Gohebiaeth/Correspondence**

##### 7.1 Gwarchod y Gymuned/Neighbourhood Watch

Cyflwynwyd gwybodaeth am y cynllun a chytuno rhoi'r posteri yn y hysbysfwrdd er gwybodaeth.

*Information regarding the scheme was presented and it was agreed to put the posters in the notice board.*

##### 7.2 Manylion Personol/Personal Details

Daw cais gan Heddlu Gogledd Cymru am fanylion cyswllt personol pob aelod. Nid oedd yr aelodau yn gefnogol o'r cais.

*A request has been received from North Wales Police for personal contact details for all members. Those present were not in support.*

### 7.3 **Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council**

Daw gwahoddiad i gynrychiolwyr ddod i gyfarfod gyda prif swyddogion Horizon nos Fercher Ionawr 27. Bydd cyfle i gynrychiolwyr y cynghorau Cymuned gwrdd a'u gilydd nos Lun Ionawr 18 yn dilyn cyfarfod Cyngor Llanbadrig yn y Llyfrgell, Cemaes am 7.30 o'r gloch. Er diogelwch, mae angen cadarnhau gyda Chyngor Llanbadrig pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod yn Wylfa erbyn Ionawr 15. Cytuno cysylltu i weld a fydd posib cynnal y cyfarfod yng ngemaes neu Amlwch yn hytrach nac ar safle wylfa.

*An invitation for representatives of the Council to meet with the senior officers of Horizon on Wednesday evening January 27<sup>th</sup>. There will be an opportunity for all the community council representatives to meet following the Llanbadrig Community Council meeting on Monday January 18<sup>th</sup> at 7.30 at Cemaes Library. For security reasons, there is a need to confirm with Llanbadrig Community Council by January 15<sup>th</sup> who will be attending the meeting at Wylfa. Agreed to see whether the meeting could be arranged to take place at Cemaes or Amlwch rather than at Wylfa.*

## **8 Unrhyw fater arall/Any other business**

### 8.1 **Twr yr Eglwys/Church Tower**

Daw pris am osod ysgol newydd i dwr yr Eglwys, mae peth arian grant wedi ei sicrhau eisioes tuag at y prosiect.

*A quote for a new ladder for the Church Tower has been received, some grant funding has already been secured towards the project.*

### 8.2 **Ymddiheuriad/Apology**

Cytuno anfon llythyr yn ymddiheuro i Frenhines Carnifal Amlwch am iddi droi allan i roi'r goleuadau Nadolig ymlaen a bod gweithgareddau eraill y noson wedi eu canslo gan fod y tywydd mor wael.

*Agreed to send a letter of apology to Amlwch Carnival Queen as she turned out to switch on the Christmas lights and all other activities in the square had been cancelled due to the weather.*

### 8.3 **Golfalwyr Ifanc/Young Carers**

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cyfranu £400 tuag at yr achos yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod cyfarfod gyda'r cydlynnydd hefyd wedi codi ymwybyddiaeth a denu cefnogaeth o fudiadau eraill.

*It was confirmed that the Council had contributed £400 towards the group following the last meeting. It was noted that a meeting with the co-ordinator had also raised awareness of the group and secured support from other avenues.*

### 8.4 **Wal Goffa (mynwent)/Memorial Wall (cemetery)**

Cafwyd wybodaeth ychwanegol am anghenion y strwythyr a chostau posib. Mae peth arian wedi ei sicrhau tuag at y prosiect yn barod.

*Information regarding the structural requirements and costs have come to hand. Some funding has already been secured towards the project.*

## **10 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Ionawr 26, 2016 am 7 o'r gloch.

*The next meeting will take place on Tuesday January 26<sup>th</sup> 2016 at 7pm*

Bu'r cyfarfod offen am 19.30 / *The meeting closed at 19.30.*